Sesiwn 4:

# Eiriolaeth

## Canllaw Astudio Grwpiau Bach

## 1. Cyflwynwch y sesiwn 5 munud

**Adnod allweddol - "Deled dy deyrnas" - Mathew 6:10**

- Yn y sesiwn hon, byddwn yn archwilio pŵer a phwysigrwydd gweddïo ar ran eraill.
- Dechreuwch y sesiwn trwy agor mewn gweddi.

## 2. Gwyliwch y Fideo 20 munud

**Darnau o'r Beibl** 2 Cronicl 7:13-14, Exodus 17:8-13, Genesis 18:22-33

**Pwyntiau crynhoi**

- Pan fydd pobl Dduw yn ymyrryd, mae Duw yn ymyrryd.
- Mae pŵer yn ein hewyllys rhydd.
- 4 cam o eiriolaeth: casglu gwybodaeth, cael eich ysbrydoli, bod yn ddig, "cydamseru"

## 3. Cwestiynau Trafod 20 munud

**C.** Beth oedd fwyaf defnyddiol neu fwyaf heriol yn y fideo i chi?

**C.** Sut ydych yn teimlo am weddi ymbil — ydy hyn yn dod yn rhywbeth naturiol neu a yw'n fwy o her?

**"Mae ein hewyllys rhydd yn bwerus; gallant ryddhau neu gyfyngu ar ddibenion Duw."**

**C.** Pa fodd y mae hyn yn effeithio ar y modd y down at Dduw mewn gweddi o eiriolaeth?

**C.** Ydych chi erioed wedi cael y teimlad bod angen i chi weddïo dros rywbeth neu rywun? Beth ddigwyddodd?

"Nid yw gweddi yn ymwneud â cheisio cael Duw i ddweud "Amen" i'r hyn yr wyf fi ei eisiau;
mae gweddi yn fater o ddweud "Amen" i ewyllys Duw yn fy mywyd"

**C.** Sut fyddai sylweddoli hyn yn effeithio ar eich gweddïau chi'r wythnos hon?

# 4. Gweithredu 15 munud

Fel grŵp, treuliwch ychydig o amser yn eiriol dros eich cymuned, tref neu genedl.

Dilynwch y 4 cam a amlinellwyd gan Pete:

1. **Casglu gwybodaeth**: dysgwch y ffeithiau trwy wirio'r newyddion, neu ddiweddariadau am y bobl rydych chi'n gweddïo drostynt.

**Nodyn i'r arweinydd**
Efallai yr hoffech chi ddod o hyd i rai ffeithiau, pwyntiau gweddi neu ddiweddariadau cyn y sesiwn hon.

2. **Ceisiwch gael eich ysbrydoli**: Beth mae Duw yn ei ddweud am hyn? Gwahoddwch yr Ysbryd Glân i siarad i mewn i'r sefyllfaoedd rydych chi'n eiriol drostynt.

3. **Byddwch yn ddig**: Gweddïwch yn onest o'r galon a gadewch i chi'ch hun feddwl a theimlo'n ddig wrth weddïo, os oes angen.

4. **Cydamseru**: Cadw mewn step â'r Ysbryd a gyda'n gilydd. Efallai yr hoffech chi i gyd weddïo'n uchel ar yr un pryd, neu weddïo mewn cylch fel bod pawb yn cael cyfle i weddïo a chael eu clywed.

## Adnoddau'r Sied Offer:

Gellir dod o hyd i'r rhain yn **prayercourse.org/toolshed**

- "How to run a non-boring Prayer Meeting" - Sut i osgoi rhedeg Cyfarfod Gweddi diflas
- "How to intercede for a Large Scale Crisis (3 P's)"
  Sut i Ymyrryd Mewn Argyfwng ar Raddfa Fawr (y Tair P)
- "A Circle Prayer" - Gweddi Gylch